OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 101

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

## RHAN 3

## CREDYD ANSOLFEDD CWSMER

*Diwygiadau ac addasiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol*

### Diwygiadau i Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**26.** Mae'r Atodlen yn gwneud diwygiadau i DTGT a DCRhT([1]).

### Addasiadau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**27.** Mae adrannau 74 i 77 o DCRhT (ymholiadau ynghylch hawliadau) yn gymwys i hawliadau o dan reoliad 20 yn yr un modd ag y maent yn gymwys i hawliadau o dan adran 62, 63 neu 63A o'r Ddeddf honno ond fel pe bai—

(a) yn adran 74, y cyfeiriadau at ddiwygio hawliad wedi eu hepgor,

(b) yn adran 75, is-adran (3) wedi ei hepgor, ac

(c) yn adran 77(1)(b), y cyfeiriad at ollwng neu ad-dalu treth ddatganoledig yn gyfeiriad at dalu swm mewn cysylltiad â chredyd treth.

(**1**) 2016 dccc 6.